

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Adroddiad Perfformiad Di-garbon Net

2022/23

Tabl Cynnwys


1.0 Perfformiad Cyfateb i Garbon - Cyffredinol	2
2.0 Perfformiad Cyfateb i Garbon - Adeiladau.....	5
3.0 Perfformiad Cyfateb i Garbon - Ysgolion.....	6
4.0 Perfformiad Cyfateb i Garbon - Fflyd.....	7
5.0 Perfformiad Cyfateb i Garbon – Goleuadau Stryd a Theledu Cylch Caeëdig.....	8
6.0 Perfformiad Cyfateb i Garbon - Teithio gan Staff	9
7.0 Gweithio Gartref	11
8.0 Perfformiad Cyfateb i Garbon – Y Gadwyn Gyflenwi.....	12
9.0 Defnydd Tir.....	13

1.0 Perfformiad Cyfateb i Garbon - Cyffredinol

Mae'r siart isod yn manylu allyriadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy rhwng 2019/20 a 2022/23. Mae'r gweithgareddau allyrru carbon yn cynnwys:

- Defnyddio ynni a dŵr yn ein hadeiladau;
- Defnyddio tanwydd yn fflyd cerbydau'r Cyngor;
- Staff yn defnyddio tanwydd wrth ddefnyddio eu ceir ar gyfer busnes;
- Defnyddio ynni o ganlyniad i oleuadau stryd a Theledu Cylch Caeëdig;
- Staff yn defnyddio ynni wrth gymudo i, ac o'u gweithle;
- Trin gwastraff o'n gweithredoedd ein hunain;
- Defnyddio ynni a thanwydd yn ein cadwyn gyflenwi.


Roedd cyfanswm allyriadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn 2022/23 yn 42,145 tCO₂e. Wrth ystyried y carbon sy'n cael ei storio drwy'r defnydd o dir, mae'r ffigwr wedi'i leihau i 41,688 tCO₂e.




Ar ddiwedd 2022/23, roedd y Cyngor wedi lleihau eu hallyriadau carbon 25.2% (14,221 tonnelli), o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen o 2019/20. Mae'r gostyngiad hwn yn bennaf oherwydd gostyngiad mewn allyriadau o'r gadwyn gyflenwi ar ôl defnyddio ffactorau allyriadau a ddiweddarwyd ar gyfer pob categori gwariant.

Roedd gostyngiadau mewn defnydd o danwydd gwresogi hefyd yn cyfrannu at ostyngiad mewn allyriadau oherwydd bod 2022/23 ar gyfartaledd, yn gynnes.

Fel y dangosir yn y siart isod, mae allyriadau yng nghategori'r gadwyn gyflenwi yn cyfrif am y rhan fwyaf o allyriadau'r Cyngor yn 2022-23 ar 58% (24,532 tonnelli) o'r cyfanswm. Mae hyn yn cael ei ddilyn gan adeiladau ar 24.5% (10,309 tonnelli) ac yna staff sy'n cymudo ar 8.6% (3,612 tonnelli).



Mae'r siart isod yn manylu cynnydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy tuag at allyriadau carbon sero net o 2019/20 i 2022/23 ac mae'n dangos beth fyddai allyriadau os byddem wedi parhau gyda busnes fel arfer a ble roedd allyriadau wedi eu rhagweld i fod os byddem wedi cwblhau'r camau arfaethedig yn ein Cynllun Sero Net.




2.0 Perfformiad Cyfateb i Garbon - Adeiladau

Mae'r siart isod yn rhoi manylion ynghylch allyriadau carbon Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o'i ddefnydd o ynni a dŵr yn ei adeiladau rhwng 2019/20 a 2022/23.

Ar ddiwedd 2022/23, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi lleihau allyriadau carbon o'i adeiladau o 10% (1,063 tonnell), o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen o 2019/20.

Mae ffactorau sydd wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn wedi cynnwys:

- Cefnogaeth barhaus ar gyfer gweithio o gartref;
- Gostyngiad o 1% yn nifer yr adeiladau. Yn 2019/20 roeddem yn meddiannu 114 o adeiladau, ac yn 2022/23 roeddem yn meddiannu 112 adeilad;
- Effaith y tywydd.



O dan Raglen Her Hinsawdd cyfrifoldeb prosiect Ystadau Allyriadau Di-garbon Net yw lleihau allyriadau o adeiladau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Amcanion prosiect Ystadau Allyriadau Di-garbon Net yw:

- Lleihau y nifer o adeiladau sy'n eiddo ac yn cael eu defnyddio gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
- Datblygu a gweithredu strategaeth lleihau carbon yn benodol ar gyfer pob math o adeilad;
- Integreiddio elfennau di-garbon net i bolisiau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â dylunio adeiladau, adnewyddu, cynnal a chadw a rheoli ased;
- Gwella effeithlonrwydd ynni a thermol ein hystadau drwy osod mesurau effeithlonrwydd ynni.
- Datblygu/cefnogi achosion busnes ar gyfer gweithredu mesurau di-garbon.


3.0 Perfformiad Cyfateb i Garbon - Ysgolion

Mae ysgolion cynradd ac uwchradd Sir Conwy yn gyfrannwr sylweddol at allyriadau carbon Conwy, gan gyfrif am tua 52% o allyriadau'r Cyngor o'r adeiladau maent yn eu meddiannu.

Mae defnydd ynni ysgolion ar gyfer 2022/23 wedi'i fanylu yn y siart isod, sydd fel a ganlyn:

- 56 ysgol gynradd sy'n cyfrif am 41% o gyfanswm yr allyriadau;
- 4 ysgol uwchradd sy'n cyfrif am 27% o gyfanswm yr allyriadau;
- 3 ysgol CAP sy'n cyfrif am 19% o gyfanswm yr allyriadau;
- 4 uned atgyfeirio disgyblion sy'n cyfrif am 3% o gyfanswm yr allyriadau;
- 1 ysgol arbennig sy'n cyfrif am 8% o gyfanswm yr allyriadau;
- 4 canolfan addysgol arall sy'n cyfrif am 3% o gyfanswm yr allyriadau.

Allyriadau CO₂e Ysgolion 2022-23 (tunelli)



Ar ddiwedd 2022/23, roedd ysgolion wedi lleihau eu hallyriadau carbon o 8% (429 tunnell), o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen o 2019/20.


Mae ymyriadau yn parhau i gael eu cynnal gyda'r nod o leihau'r allyriadau carbon yn ysgolion y Sir, a chynnwys:

- Gwneud effeithlonrwydd ynni'n rhan annatod o'r broses ddylunio ar gyfer gwella adeiladau;
- Ymwybyddiaeth wedi'i dargedu a newid ymddygiad;
- Disodli goleuadau LED fel rhan o waith cynnal a chadw ymatebol a phrosiectau moderneiddio ar raddfa fwy;
- Trydaneiddio arlwyyo mewn ysgolion, gan ei fod yn fwy effeithlon.

4.0 Perfformiad Cyfateb i Garbon - Fflyd

Mae'r siart isod yn rhoi manylion ynghylch allyriadau carbon Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o'i ddefnydd o ynni tanwydd fflyd rhwng 2019/20 a 2022/23.

Ar ddiwedd 2022/23, roedd y Cyngor wedi lleihau eu hallyriadau carbon 13% (421 tonnelli), o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen 2019/20.



Mae ffactorau i gefnogi gostyngiad mewn defnydd tanwydd yn cynnwys:

- Caffael cerbydau a pheiriannau sy'n fwy effeithlon o ran tanwydd; Mae gennym 13 o gerbydau trydan a pheiriant mawr yn ein fflyd ar hyn o bryd;
- Disodli peiriannau bach sy'n llosgi tanwydd traddodiadol gyda pheiriannau trydan cyfatebol;
- Monitro ymddygiad gyrwyr;
- Olew nwy ddim yn cael ei ddefnyddio mwyach fel tanwydd ar gyfer cerbydau;
- Mwy o arferion gwaith effeithlon drwy wella technoleg a thrawsnewidiadau gwasanaeth.

O dan Raglen Newid Hinsawdd cyfrifoldeb prosiect Fflyd Allyriadau Di-garbon Net yw lleihau allyriadau o fflyd CBSC.


Amcanion prosiect Fflyd Allyriadau Di-garbon Net yw:

- Newid fflyd cerbydau a pheiriannau mawr y Cyngor i ddatrysiaid carbon isel fesul camau yn ôl categorïau cerbydau a pheiriannau byr dymor, tymor canolig a hir dymor erbyn 2030;
- Datblygu isadeiledd corfforol i gefnogi gweithrediad fflyd o gerbydau a pheiriannau mawr carbon isel;
- Lleihau nifer y milltiroedd a deithir gan fflyd CBSC;
- Archwilio dewisiadau fflyd carbon isel amgen, e.e. hydrogen, biomethan, hybrid.

5.0 Perfformiad Cyfateb i Garbon – Goleuadau Stryd a Theledu Cylch Caeëdig

Mae'r siart isod yn rhoi manylion ynghylch allyriadau carbon y Cyngor o'i oleuadau stryd a Theledu Cylch Caeëdig, rhwng 2019/20 a 2022/23.

Ar ddiwedd 2022/23, roedd y Cyngor wedi lleihau ei allyriadau carbon o oleuadau stryd a Theledu Cylch Caeëdig 53% (672 tonnell), o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen 2019/20.




Mae'r gostyngiad mewn defnydd yn bennaf oherwydd y rhaglen disodli llusernau sydd wedi disodli llusernau gyda goleuadau LED mwy effeithlon. Hyd yma, mae oddeutu 96% o lusernau CBSC wedi eu huwchraddio i LED.

6.0 Perfformiad Cyfateb i Garbon - Teithio gan Staff

Mae'r siart isod yn rhoi manylion ynghylch allyriadau carbon y Cyngor o staff yn teithio rhwng 2019/20 a 2022/23.

Ar ddiwedd 2022/23, roedd staff yn cymudo wedi lleihau eu hallyriadau carbon o 17% (728 tunnell), o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen o 2019/20.




Mae allyriadau'n cael eu cyfrifo ar ragdybiaethau sy'n seiliedig ar god post cyfeiriad cartref aelodau staff a'u lleoliad gwaith pennaf.

Mae'r gostyngiad yn bennaf oherwydd lefelau uchel o staff sy'n gweithio o gartref yn dilyn pandemig Covid-19. Fodd bynnag, roedd allyriadau drwy gymudo wedi cynyddu 19% (567 tunnell) o 2021-2022 i 2022-2023 oherwydd cyfran uwch o staff yn gweithio yn y swyddfa.

Mae'r siart isod yn rhoi manylion ynghylch allyriadau carbon y Cyngor o deithio ar gyfer busnes rhwng 2019/20 a 2022/23.

Ar ddiwedd 2022/23, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi lleihau allyriadau carbon o deithio ar gyfer busnes o 39% (211 tunnell), o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen o 2019/20.



Mae allyriadau o deithio ar gyfer busnes wedi cynyddu o 2020/21 ar ôl dychwelyd i fwy o weithio yn y swyddfa yn dilyn pandemig Covid-19.

Hawliwyd cyfanswm o 532,239 yn llai o filltiroedd yn 2022/23 o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen a arweiniodd at arbediad o £239,508 ar gost milltiroedd busnes.

O dan y Rhaglen Her Hinsawdd cyfrifoldeb prosiect Allyriadau Teithio Staff Di-garbon Net yw lleihau allyriadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o deithio ar gyfer busnes a staff yn cymudo.


Amcanion prosiect Allyriadau Di-garbon Net Staff yn Teithio yw:

- Datblygu Polisi Teithio Staff;
- Datblygu'r isadeiledd corfforol i hwyluso llai o deithiau gan staff, dulliau teithio carbon isel a theithio llesol;
- Datblygu gweithdrefnau i hwyluso llai o deithiau busnes a chymudo;
- Sicrhau bod staff yn gyfarwydd â pholisïau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â llai o deithio, dulliau teithio carbon isel a theithio llesol;
- Datblygu Cynllun Teithio Gweithle CBSC.

7.0 Gweithio Gartref

Credir bod allyriadau oherwydd gweithio gartref yn isel iawn cyn y pandemig ac nid oeddent yn cael eu mesur.


Pan oedd y pandemig yn ei anterth yn 2020/21, roedd yr allyriadau o weithio gartref wedi codi i oddeutu 935 tCO₂e. Yn ystod 2022/23, roedd allyriadau o weithio gartref wedi lleihau i 594 tCO₂e wrth i staff ddychwelyd i weithio yn y swyddfa. Gwelir hyn yn y graff isod.



8.0 Perfformiad Cyfateb i Garbon – Y Gadwyn Gyflenwi

Mae'r siart isod yn rhoi manylion ynghylch allyriadau carbon y Cyngor o wariant y gadwyn gyflenwi rhwng 2019/20 a 2022/23. Mae'r gadwyn gyflenwi yn cyfrif am oddeutu 58% o gyfanswm allyriadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Ar ddiwedd 2022/23, roedd yr allyriadau o wariant y gadwyn gyflenwi wedi lleihau 31% (11,125 tunnell), o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen o 2019/20.



Mae'r gostyngiad o ganlynid i newidiadau i'r ffactorau allyriadau a ddefnyddir i gyfrif yr allyriadau o bob punt a wariwyd. Roedd y ffactorau allyriadau newydd wedi eu cyfrif gan Brifysgol Leeds fel diweddariad i'r set data a ddefnyddiwyd yn flaenorol.

O dan Raglen Her Hinsawdd cyfrifoldeb prosiect Cadwyn Gyflenwi Di-garbon Net yw lleihau allyriadau o gadwyn gyflenwi Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Amcanion prosiect Cadwyn Gyfenwi Di-garbon yw:

- Gwella methodoleg data allyriadau y gadwyn gyflenwi;
- Integreiddio carbon sero net i bolisiau a gweithdrefnau caffael y Cyngor;
- Adolygu templedi caffael ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i integreiddio datgarboneiddio fel ffactor o brosesau caffael;
- Datblygu a gweithredu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu i gymell lleihau carbon ymysg cyflenwyr;
- Ymgysylltu â sefydliadau eraill ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddatblygu ymagwedd gydlynol;

9.0 Defnydd Tir

Mae'r coetir a glaswelltir sy'n eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gweithredu fel sinc carbon. Amcangyfrifir bod y coetir a glaswelltir yn gyfrifol am ddal a storio 457 tonnall o allyriadau cyfateb i CO₂ yn flynyddol, sef tua 1% o gyfanswm allyriadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Ar ddiwedd 2022/23, mae allyriadau sy'n cael eu dal o ddefnydd tir wedi cynyddu o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen o 2019/20. Mae hyn o ganlyniad i gaffael glaswelltir ychwanegol yn Llanrhos.

O dan y Rhaglen Her Hinsawdd mae prosiect Gwrthbwysu Carbon yn gyfrifol am ddal a storio allyriadau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn rhannol drwy ddefnydd tir.

Amcanion prosiect Gwrthbwysu Carbon yw:

- Sefydlu effaith coed trefol ar allyriadau carbon Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
- Plannu coed ar draws 110 hectar o ystadau presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
- Ehangu plannu coed ar draws 225 hectar o ystadau presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
- Archwilio cyfleoedd ar gyfer gosodiadau adnewyddadwy ar draws ystadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ; fel ffermydd solar;
- Cynyddu nifer y gwrychoedd ar ystâd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.